OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 943 (Cy.97)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Coleri Electronig) (Cymru) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *23 Mawrth 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *24 Mawrth 2010* |

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac fe'i cymeradwywyd drwy benderfyniad yn unol ag adran 61(2) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006(**1**).

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 12(1), (3)(a), (5) a 62 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006(**2**), ac wedi ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn cynrychioli'r buddiannau o dan sylw, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Coleri Electronig) (Cymru) 2010 a deuant i rym y diwrnod ar ôl eu gwneud.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “coler electronig” (“*electronic collar*”) yw coler a luniwyd i roi sioc drydan; ac

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Lles Anifeiliaid 2006.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Gwaharddiad ar ddefnyddio coleri electronig

**2.**—(1) Gwaherddir unrhyw berson rhag—

(a) gosod coler electronig ar gi neu gath;

(b) peri bod coler electronig yn cael ei gosod ar gi neu gath; nac

(c) bod yn gyfrifol am gi neu gath y mae coler electronig wedi'i gosod arnynt.

(**1**) 2006 p. 45. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 34 o Atodlen 11 iddi (p.32), mae'r cyfeiriad yn adran 61(2) at “*House of Parliament*” yn cynnwys Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**2**) Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru ac maent bellach wedi eu breinio ynddynt hwy. Dyfynnir adran 62 am yr ystyr a roddir i “*appropriate national authority*”.

**Tramgwyddau**

**3.** Mae person sy'n torri unrhyw un neu rai o'r gwaharddiadau yn rheoliad 2 yn cyflawni tramgwydd ac, ar gollfarn ddiannod, yn agored—

(a) i garchariad am gyfnod heb fod yn hwy na 51 wythnos;

(b) i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol; neu

(c) i'r ddeubeth.

**Mynd i mewn a chwilio**

**4.** Mae tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn i'w drin fel tramgwydd perthnasol at ddibenion adran 23 o'r Ddeddf (mynd i mewn a chwilio o dan warant mewn cysylltiad â thramgwyddau).

*Elin Jones*
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

23 Mawrth 2010

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 12 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (p.45) ac maent yn gwahardd defnyddio ar gathod a chŵn unrhyw goler electronig a luniwyd i roi sioc drydan.

Mae rheoliad 1 yn diffinio "coler electronig".

Mae rheoliad 2 yn gwahardd defnyddio coler electronig ar gi neu gath.

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth ar gyfer tramgwyddau.

Mae rheoliad 4 yn darparu pwerau i fynd i mewn a chwilio.

Mae arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi. Gellir cael copïau o Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.